## Y Groglith

**Darlleniad: Eseia 53:1–12, 55:1–5**

O! Dduw, ein Tad nefol, wrth i ni gofio digwyddiadau mawr y Groglith, rydym yn diolch i ti o'r newydd am dy gariad mawr tuag atom yn yr Arglwydd Iesu Grist.

Rydym yn diolch i ti o'r newydd heddiw nad cariad rhad y cylchgronau, nad rhamant rhwydd y llyfrau clawr papur na chariad heulwen haf sy'n darfod yw dy gariad di, ond cariad amhrisiadwy.

Rydym yn diolch heddiw dy fod ti wedi ein cymryd o ddifrif, dy fod wedi ein caru o ddifrif, dy fod wedi plymio i ddyfnder ein hangen o ddifrif.

Rydym yn diolch heddiw fod yr Arglwydd Iesu Grist wedi dod i ganol y profiad o fod yn ddynol i faddau ac i dosturio, i achub ac i iacháu.

Rydym yn cofio heddiw ei ddioddefaint ef sy'n ein rhyddhau ni, a'i glwyfau ef sy'n ein hiacháu.

Wrth i ni feddwl am gorff drylliedig ein Harglwydd,
Myfyriwn ar ddelw ddrylliedig y ddynoliaeth;
Meddyliwn am hunanoldeb a balchder ein bywydau,
Meddyliwn am gasineb a thwyll,
trais a lladd yn ein gwlad a'n byd...

*Saib o dawelwch*

O! Dduw ein Tad, er i ti ein creu ar dy ddelw
Cyffeswn nad ydym yn debyg i ti;
Er i ti ein caru fel dy blant,
Cyffeswn i ni dy anwybyddu fel dieithryn;
Er i ti dosturio wrthym a maddau i ni,
Cyffeswn i ni galedu'n calonnau yn erbyn ein cyd-ddyn
a gwrthod maddau i eraill;
Er i ti wneud cymaint drosom er ein lles,
Cyffeswn i ni'n aml esgeuluso lles ein cymydog.
Cofiwn heddiw am y rhai mewn dicter a gwallgofrwydd
sydd wedi dolurio neu ddinistrio bywyd pobol eraill;
Cofiwn heddiw am y rhai sydd wedi camddefnyddio grym
i reoli a chaethiwo eraill gyda bygythiadau ac ofn...

*Saib o dawelwch*

Dyro i ni weld o'r newydd yn y Crist ar y Groes
Cymaint yw dy gariad a'th drugaredd di.
Diolch am Iesu sy'n cymryd ein heuogrwydd ni,
Sy'n estyn ei faddeuant amhrisiadwy i ni o'r Groes.
Wrth i ni feddwl am ddioddefaint Iesu ar y Groes,

Myfyriwn am bobl ddioddefus ein byd:
Y rhai sy'n sâl mewn corff, meddwl neu ysbryd,
Yr unig, y rhai gorthrymedig, y rhai sy'n galaru.
Meddyliwn yn arbennig am rai rydym ni yn eu hadnabod...

*Saib o dawelwch*

O Dduw ein Tad nefol, er i ti ein creu i gael cyflawnder bywyd,
Cydnabyddwn y rhwystrau sy'n cadw pobl rhag ei fwynhau:
Er i ti ein creu i iechyd, mae llawer mewn afiechyd;
Er i ti ein creu i lawenydd, mae llawer yn galaru;
Er i ti ein creu yn gyfartal, mae llawer yn byw dan ormes;
Er i ti ein creu i ffydd, mae llawer yn cael eu bwrw i amheuaeth.
Cofiwn heddiw am gleifion yn yr ysbyty neu yn eu cartrefi;
Cofiwn heddiw am rai sy'n galaru mewn hiraeth am anwyliaid;
Cofiwn heddiw am rai sy'n dioddef dan ormes
ac anghyfiawnder...

*Saib o dawelwch*

Dyro i ni weld o'r newydd, yn y Crist ar y Groes,
Cymaint yw dy gydymdeimlad a'th dosturi di.
Diolch i ti am yr un a archollwyd am ein troseddau,
Ac a gymerodd ein dolur a'n gwaeledd arno'i hun,
Ein Harglwydd a'n Gwaredwr Iesu Grist. Amen.

***Casi Jones***